# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 1 Gorffennaf 2002

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**David Davies (Mynwy);** Pa gyhoeddiadau y mae'r Adran Addysg wedi eu hanfon i ysgolion yng Nghymru ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu. (WAQ18812)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gomisiynu archwiliad o'r stoc dai mewn ardaloedd lle ceir diffyg tai fforddiadwy. (WAQ18816)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyblygrwydd a ganiateir i awdurdodau lleol wrth roi polisïau gwerth gorau ar waith. (WAQ18817)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa ddarpariaethau ariannol y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud i alluogi'r Dirprwy Brif Weinidog i fynd i'r afael â'i gyfrifoldebau byd-eang. (WAQ18818)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** I ba raddau yr aseswyd effaith aros y tu allan i ardal yr Ewro ar economi Cymru. (WAQ18813)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A fyddai'r Gweinidog yn ystyried rheoliadau ar gyfer galw ceisiadau cynllunio i mewn yn awtomatig i ddatblygu tir a oedd yn arfer bod ym meddiant cwmnïau cyfleustodau cyhoeddus, awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol. (WAQ18814)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gynghori'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol er mwyn sicrhau bod deiliad newydd masnachfraint reilffyrdd Cymru gyfan yn darparu gwasanaeth llawer gwell. (WAQ18815)